



Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD MERCHER, 30AIN AWST, 2023**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 23 Awst 2023)

# **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

## **AELODAETH (3)**

Y Cynghorwyr

Annwen Hughes

John Brynmor Hughes

Elfed Williams (Cadeirydd)

Arwyn Herald Roberts (Eilydd)

## **Aelod Lleol**

Y Cynghorydd Rheinallt Puw

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO

5 - 60

Cwrw Tŷ Mo, Cwrw Ogwen, 5 Rhes Ogwen, Stryd Fawr, Bethesda, Bangor

I ystyried y cais

## **TREFN MEWN GWRANDAWIADAU TRWYDDEDU**

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.
2. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
4. Gall yr ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion
5. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
6. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
7. Gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
8. Gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

**Atgoffir oll o'r pedwar egwyddor i'w hystyried wrth benderfynu ar y ceisiadau, sef:**

- 1) Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
- 2) Diogelwch y Cyhoedd;**
- 3) Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
- 4) Amddiffyn plant rhag niwed:**

# Eitem 4

<b>PWYLLGOR:</b>	<b>IS - BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>30 o Awst 2023</b>
<b>TEITL:</b>	<b>CAIS AM DRWYDDED EIDDO - CWRW TŶ MO, 5 RHES OGWEN, BETHESDA</b>
<b>PWRPAS:</b>	<b>ER PENDERFYNIAD</b>
<b>AWDUR:</b>	<b>PENNAETH AMGYLCHEDD</b>

## 1. CAIS A DDERBYNIWYD

- 1.1 Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Cwrw Tŷ Mo, Cwrw Ogwen, 5 Rhes Ogwen, Stryd Fawr , Bethesda, Bangor, LL57 3AY. Bwriedir gweithredu yr eiddo fel bragdy a bar: mae trwydded eiddo eisoes yn bodoli ar gyfer yr eiddo ond fod cais wedi ei wneud am drwydded newydd . Mae'r ymgeisydd, Morgan Vallely yn gofyn am ganiatáu gwerthiant alcohol ar ac oddi ar yr eiddo tan hanner nos 7 diwrnod yr wythnos ac cynnal adloniant tu mewn a thu allan tan 11 yr hwyr yn ddyddiol.
- 1.2 Er nad oes cynnydd cyffredinol yn yr oriau gweithgareddau trwyddedig, mae yr ymgeisydd yn ceisio yr hawl i gynnal gweithgareddau trwyddedig yn hwyrach na'r drwydded gyfredol, ond peidio agor tan amser cinio.
- 1.3 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.
- 1.4 Fe dderbyniwyd sylwadau ar y cais ac felly mae wedi ei gyfeirio i wrandawriad o'r Is Bwyllgor hwn am benderfyniad.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig:

<b>Trwydded Presenol/Current Licence</b>	<b>Trwydded Arfaethedig/Proposed Licence</b>
<b>Oriau Agor / Opening Hours</b>	
Dydd Sul/Sunday -	Dydd Sul/Sunday 12:00 - 01:00
Dydd Llun/Monday 10:00 - 20:30	Dydd Llun/Monday 12:00 - 01:00
Dydd Mawrth/Tuesday 10:00 - 20:30	Dydd Mawrth/Tuesday 12:00 - 01:00
Dydd Mercher/Wednesday 10:00 - 20:30	Dydd Mercher/Wednesday 12:00 - 01:00
Dydd Iau/Thursday 10:00 - 20:30	Dydd Iau/Thursday 12:00 - 01:00
Dydd Gwener/Friday 10:00 - 20:30	Dydd Gwener/Friday 12:00 - 01:00
Dydd Sadwrn/Saturday 10:00 - 21:00	Dydd Sadwrn/Saturday 12:00 - 01:00

<b>Gweithgareddau Trwyddedadwy / Licensable Activites</b>	
<b>Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol: Ar ac oddi ar yr Eiddo :: Both on and off the Premises</b>	<b>Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol: Ar ac oddi ar yr Eiddo :: Both on and off the Premises</b>
Dydd Sul/Sunday -	Dydd Sul/Sunday 12:00 - 24:00

Dydd Llun/Monday 10:00 - 20:30 Dydd Mawrth/Tuesday 10:00 - 20:30 Dydd Mercher/Wednesday 10:00 - 20:30 Dydd Iau/Thursday 10:00 - 20:30 Dydd Gwener/Friday 10:00 - 20:30 Dydd Sadwrn/Saturday 10:00 - 21:00	Dydd Llun/Monday 12:00 - 24:00 Dydd Mawrth/Tuesday 12:00 - 24:00 Dydd Mercher/Wednesday 12:00 - 24:00 Dydd Iau/Thursday 12:00 - 24:00 Dydd Gwener/Friday 12:00 - 24:00 Dydd Sadwrn/Saturday 12:00 - 24:00
<b>Cerddoriaeth Fyw/Live Music: Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors</b>  Dydd Sul/Sunday- Dydd Llun/Monday 0:00 - 20:30 Dydd Mawrth/Tuesday 10:00 - 20:30 Dydd Mercher/Wednesday 10:00 - 20:30 Dydd Iau/Thursday 10:00 - 20:30 Dydd Gwener/Friday 10:00 - 20:30 Dydd Sadwrn/Saturday 10:00 - 21:00	<b>Cerddoriaeth Fyw/Live Music: Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors</b>  Dydd Sul/Sunday 15:00 - 23:00 Dydd Llun/Monday 15:00 - 23:00 Dydd Mawrth/Tuesday 15:00 - 23:00 Dydd Mercher/Wednesday 15:00 - 23:00 Dydd Iau/Thursday 15:00 - 23:00 Dydd Gwener/Friday 15:00 - 23:00 Dydd Sadwrn/Saturday 15:00 - 23:00
<b>Cerddoriaeth wedi ei Recordio/Recorded Music: Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors</b>  Dydd Sul/Sunday- Dydd Llun/Monday 10:00 - 20:30 Dydd Mawrth/Tuesday 10:00 - 20:30 Dydd Mercher/Wednesday 10:00 - 20:30 Dydd Iau/Thursday 10:00 - 20:30 Dydd Gwener/Friday 10:00 - 20:30 Dydd Sadwrn/Saturday 10:00 - 21:00	<b>Cerddoriaeth wedi ei Recordio/Recorded Music: Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors</b>  Dydd Sul/Sunday 15:00 - 23:00 Dydd Llun/Monday 15:00 - 23:00 Dydd Mawrth/Tuesday 15:00 - 23:00 Dydd Mercher/Wednesday 15:00 - 23:00 Dydd Iau/Thursday 15:00 - 23:00 Dydd Gwener/Friday 15:00 - 23:00 Dydd Sadwrn/Saturday 15:00 - 23:00

## 2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn atodlen weithredol y cais yn cynnwys y canlynol –

- Hyfforddiant staff ar faterion diogelwch
- Prosesau gwirio oedran cynhwysfawr mewn lle
- Gwiriadau cefndirol ar bawb sy'n gweithio yn yr eiddo trwyddedig
- Mesurau i atal trosedd ac anrhefn, sicrhau diogelwch y cyhoedd a diogelwch plant ac oedolion bregus
- Cydweithio gyda'r Heddlu ac asiantaethau eraill
- Sicrhau cydymffurfriad gyda rheoliadau diogelwch sy'n berthnasol i eiddo trwyddedig
- Datblygu prosesau diogelwch ac argyfwng clir ar gyfer staff
- Archwilio strwythurau ac offer yn rheolaidd
- Cynnal asesiadau risg
- Rheoli sŵn drwy gymryd camau i ynysu'r strwythur rhag sŵn, rheoli lefel sŵn, ac rhedeg gweithgareddau trwyddedig ar amseroedd rhesymol fel nad oes niwsans

- Sicrhau fod niferoedd cwsmeriaid yn cael eu rheoli a sicrhau ymddygiad derbyniol
- Cynnal prosesau gwirio oedran a sicrhau hyfforddiant cynhwysfawr i staff ar brosesau gwirio oedran
- 

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn rhan M y cais a welir yn yr atodiad .

### **3. YMGYNGHORIAD**

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

<b>YMATEBION</b>	<b>SYLWADAU</b>
Heddlu Gogledd Cymru	Dim gwrthwynebiad
Gwasanaeth Tan	Dim gwrthwynebiad
Aelod lleol	Dim gwrthwynebiad
Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd	E-bost - sylwadau

### **3 Sylwadau Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd**

- 3.1 Cyflwynwyd sylwadau ar sail y ffaith fod angen cymryd mesurau digonol i sicrhau cydymffurfriad gyda'r amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus
- 3.2 Nododd y swyddog a ymatebodd nad oedd gan y gwasanaeth wrthwynebiad i'r cais ond yn hytrach mynegwyd pryder am yr oriau hwyr ychwanegol ar gyfer gweithgareddau trwyddedig megis adloniant rheoledig o ystyried y ffaith fod fflat uwch ben a naill ochr i'r bragdy a thafarn. Mynegwyd hefyd pryderon am effeithiolrwydd strwythur yr adeilad o ran ynysu'r anheddau hyn rhag sŵn cerddoriaeth.
- 3.3 Argymhellodd y swyddog amodau sŵn penodol i'w cynnwys ar atodlen weithredol yr eiddo , yn ychwanegol i'r amodau a gynigwyd gan yr ymgeisydd yn rhan M y cais . Gweler yr atodiad i'r adroddiad am fanylion llawn yr amodau sŵn arfaethedig.
- 3.4 Yn ddiweddarach, fe gafwyd cadarnhad ysgrifenedig gan yr ymgeisydd ei fod yn derbyn yr amodau a gynigwyd ( gweler atodiad) , a mynegwyd nad oedd bwriad cynnal nosweithiau adloniant byw mwy nag unwaith y mis, gyda cerddoriaeth byw yn gorffen am 10 yr hwyr .

### **4 ARGYMHELLIAD**

**Yn unol a'r Deddf Drwyddedu 2003, argymhellir fod y Pwyllgor yn caniatáu'r cais yn ddarostyngedig i -  
gynnwys amodau ychwanegol rheoli sŵn a argymhellwyd gan Gwarchod y Cyhoedd yn unol a'r hyn a gytunwyd gyda'r ymgeisydd.**